**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 29 Medi 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L S Gibbard (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | D W Helliwell | T J Hennegan |
| Y V Jardine | P K Jones | M Sherwood |
| L J Tyler-Lloyd | L V Walton | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Y V Jardine | | |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau (Dirprwy Arweinydd)

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Lewis | Rheolwr Prosiect |
| Antony Moss | Rheolwr Ynni |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Suzy Richards | Swyddog Polisi Cynaliadwy |

---

### 38 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 39 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

## 40 Y Diweddaraf am y Strategaeth Ynni.

Roedd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Trawsnewid Ynni a Gwasanaethau (y Dirprwy Arweinydd), y Cyfarwyddwr Lleoedd, y Rheolwr Ynni a Rheolwr y Prosiect yn bresennol wrth i'r Pwyllgor ystyried Strategaeth Ynni 2020-2030.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Lleoedd sylw at:

- Adrodd am allyriadau - Allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3
- Prosiectau Ffermydd Solar Newydd
- Rhaglen carbon isel Refit
- Datblygu'r gwaith i greu Morlyn Llanw Bae Abertawe
- Cydweithio ag Egni Co-Op ar ysgolion
- Tynnu goleuadau stryd a phriffyrdd o'r Strategaeth Ynni i'w rhoi ar wahân gyda Phriffyrdd
- Cynllun Gweithredu Cysylltiedig

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Disgwylir cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru
- Plannu Coed
- Y gallu i ddod yn Awdurdod allyriadau di-garbon net erbyn 2030
- Diddordeb gan gwmnïau preifat mewn datblygiad diweddar a Safon Abertawe
- Coedwigoedd bychain/bach

Diolchodd Aelod y Cabinet a'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a Swyddogion am eu gwaith caled.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad a'r Diweddariad.

## 41 Polisi Datblygu Cynaliadwy.

Cyflwynodd y Swyddog Polisi Cynaliadwy adroddiad am y 'Polisi Datblygu Cynaliadwy'.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Gweledigaeth - Mae datblygu cynaliadwy'n ymwneud â chael y gorau o'n holl adnoddau heddiw gan sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau ar gyfer yfory
- Meysydd i'w newid – Cynllunio corfforaethol
- Llywodraethu
- Nodau llesiant ac amcanion llesiant
- Amserlen ar gyfer cynllun gweithredu
- Pum ffordd o weithio – Cyfranogaeth – newid i gyfeirio at gynnwys pawb yn hytrach na dim ond y rhai sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Polisi Cynaliadwy ar ran y Pwyllgor.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Polisi datblygu cynaliadwy drafft i'w ystyried ymhellach gan y Cyngor; a
2) Chysylltu'r polisi â chynllun gweithredu datblygu cynaliadwy sy'n adrodd i'r TRhC.

**42 Rhaglen Waith 2019/20.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2019-20.

Nododd y Cadeirydd fod gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r Cynnig Mae Bywydau Du o Bwys a disgwylid y byddai diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Roedd y Swyddog Strategaeth a Pholisi wedi llunio crynodeb drafft o'r gwaith a gwblhawyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a fyddai'n cael ei ddosbarthu i'r Aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r swyddogion cefnogi am eu cyfraniad a'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddinesig.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cynllun gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.40 pm

**Cadeirydd**